# *THE WORLD'S END* (Wright, 2013):

Cynulleidfaoedd

## Gweithgaredd wrth gyrraedd

Ffigurau **mynediad i'r sinema** yn y DU bob mis ar gyfer 2013 gan www.launchingfilms.com

| | |
|---|---|
| Ionawr | 17,081,700 |
| Chwefror | 13,960,141 |
| Mawrth | 10,885,645 |
| Ebrill | 11,887,940 |
| Mai | 15,607,698 |
| Mehefin | 13,029,685 |
| Gorffennaf (rhyddhau *The World's End*) | <u>14,321,221</u> |
| Awst | 17,639,654 |
| Medi | 9,885,140 |
| Hydref | 11,865,573 |
| Tachwedd | 13,669,359 |
| Rhagfyr | 15,706,221 |
| Cyfanswm | 165,539,976 |

**O edrych ar y ffigurau hyn, ydych chi'n credu y byddai *The World's End* wedi bod yn fwy llwyddiannus pe bai wedi'i rhyddhau yn gynharach neu'n hwyrach yn 2013?**

## Tasg 1

**Edrychwch yn ofalus ar y darn canlynol o fwrdd negeseuon ar imdb.com ynghylch *The World's End*.**

– **Beth yw'r manteision i gynulleidfaoedd o ran trafod y ffilm ar-lein?**

## Tasg 2

**Darllenwch yr adolygiad ar-lein negyddol hwn o *The World's End* a thrafodwch y cwestiynau canlynol:**

– **Beth nad yw'r adolygwr yn ei hoffi am y ffilm?**
– **Yn eich barn chi, beth mae'n ei olygu pan mae'n dweud 'nid wyf yn y ddemograffeg' ar gyfer y ffilm?**
– **Ar sail yr hyn rydych chi wedi ei weld hyd yma, pwy yw'r brif gynulleidfa a'r gynulleidfa eilaidd ar gyfer y ffilm hon?**
– **Pa bwyntiau mae'n eu gwneud am sêr y ffilm? Ydych chi'n cytuno ag ef?**
– **A yw'n gwneud unrhyw bwyntiau perthnasol am genre neu naratif y ffilm?**
– **I ba raddau y mae adolygiadau – yn arbennig adolygiadau ar-lein – yn ddefnyddiol ar gyfer cynulleidfaoedd?**
– **Ydych chi'n credu ei fod yn tynnu sylw at unrhyw faterion sy'n ymwneud â pham y bu'r ffilm yn fethiant?**

### Adolygiad Ffilm: *The World's End* yn ddiweddglo annigrif ac anniddorol i gyfres Cornetto

Gan Julien Fielding
Fielding on Film | Postiwyd 8 mis yn ôl

Nid wyf yn y ddemograffeg ar gyfer *The World's End*, ac roeddwn i'n gwybod hynny cyn mynd i'w gwylio.

Roeddwn i wedi gwneud fy ngorau glas i gadw meddwl agored hefyd, ond, yn fy marn i, roedd y ffilm gomedi/ffuglen wyddonol ddiweddaraf gan yr actor-awdur Simon Pegg a'r awdur-gyfarwyddwr Edgar Wright yn annigrif ac yn anniddorol. (Edrychais ar fy oriawr lawer iawn o weithiau trwy gydol yr 109 o funudau.)

Dyma'r ffilm olaf yng nghyfres Cornetto – y ddwy arall yw *Shaun of the Dead* (2004) a *Hot Fuzz* (2007). Mae *The World's End* am griw o bump o ffrindiau sy'n cyfarfod eto ar ôl 20 mlynedd i grwydro tafarnau.

Mae Gary King (Pegg) yn gefnogwr brwd o Sisters of Mercy ac yn ychydig o lipryn, ac ef sy'n gyfrifol am hel y band yn ôl at ei gilydd.

Er gwaethaf y ffaith bod ei ffrindiau (Paddy Considine, Martin Freeman, Nick Frost ac Eddie Marsan) i gyd yn eithaf llwyddiannus ac yn dipyn mwy aeddfed nag ef, mae Gary rhywsut yn llwyddo i berswadio pawb i ddychwelyd adref i fynd ar y cwrw ac yfed 12 peint mewn un noson. (Daw ei athroniaeth bywyd o'r gân 'I'm Free' gan The Soup Dragons, sy'n cyhoeddi 'I'm free to do what I want any old time.')

Pan maen nhw'n cyrraedd, mae'n amlwg bod rhywbeth wedi newid. Mae'r tafarnau'n debycach i siopau Starbucks, ac mae pobl y dref ychydig yn robotaidd. Wrth i'r noswaith fynd yn ei blaen, mae'r ffrindiau'n sylweddoli y gallai ffawd y ddynoliaeth ddibynnu arnyn nhw.

Er fy mod yn hoff o'r rhan fwyaf o'r actorion yn *The World's End*, nid oeddwn yn hoff o'r ffilm hon. (Wedi dweud hynny, nid wyf yn hoff o'r ffilmiau eraill yng nghyfres Cornetto.) Un o fy mhrif gwynion yw'r ffordd gadarnhaol y mae'n portreadu yfed alcohol, ac yfed llawer ohono mewn un noson, sy'n hynod o beryglus.

O fewn cyfnod byr o amser, bydd y dynion hyn yn yfed o leiaf 12 peint o lager. (Maen nhw'n yfed gwirodydd hefyd.) Mae hyn yn ddoniol iawn i rai pobl, ond mewn gwirionedd, mae pobl yn marw trwy wneud hyn. Yn wir, bu farw dyn yn Sbaen yn ddiweddar ar ôl ennill cystadleuaeth yfed cwrw. (Fe wnaeth yfed 12.5 litr mewn 20 munud.) Rwy'n gwybod fy mod yn difetha'r hwyl, ond yn fy marn i, mae plot y ffilm yn anghyfrifol, ac nid yw gwenwyn alcohol yn destun chwerthin i mi.

Gallaf eisoes weld cefnogwyr y ffilm yn dod at ei gilydd i grwydro tafarnau. Gobeithio bod y corffdai yn barod.

Mae Pegg yn gwneud Scotty gwych yn ffilmiau newydd *Star Trek*, ond ni allaf ddweud fy mod wedi ei hoffi rhyw lawer yn ei ffilmiau eraill. Nid yw ei gymeriad yn *The World's End* yn hoffus o gwbl, felly roeddwn yn pendroni sut y gwnaeth lwyddo i berswadio ei ffrindiau i ymuno ag ef ar ei grwydr.

Rwyf hefyd yn pendroni pam y byddai actorion cystal yn cytuno i ymddangos mewn ffilm sydd â sgript mor wan. (Gan eu bod wedi ymddangos yn y ffilmiau blaenorol, mae'n siŵr mai cwlwm cyfeillgarwch sy'n gyfrifol yn fwy dim arall). Mae Marsan yn un o'r actorion mwyaf amryddawn sydd o gwmpas heddiw. Mae'n ardderchog wrth chwarae'r dihiryn – gweler ef yn *Heartless* (2009) – ond mae'r un mor dda ar ochr arall y sbectrwm – mae'n cyflwyno ymson pwerus iawn yn *Masterpiece Theatre's God on Trial* (2008). Bydd tanysgrifwyr Showtime yn ei adnabod o *Ray Donovan*.

Yn *The World's End*, mae'n chwarae mab gwerthwr ceir a oedd yn cael ei fwlio yn ei ieuenctid. Mae ganddo ambell foment sy'n sefyll allan – mae'n dial ar fwli – ond ar y cyfan, mae'r "ffrindiau" yn ymddangos fel ôl-ystyriaeth.

Yn anffodus, y cymeriad sy'n cael y rhan fwyaf o'r llinellau yw King, sy'n annymunol ac yn uchel ei gloch. (Ac mae'n chwarae rhan estynedig y storïwr ar y dechrau – roedd hynny'n dân ar fy nghroen.)

Mae traddodiad hir o weld actor mawr yn dechrau fel cymeriad sydd dan y fawd a/neu'n gymeriad eithaf addfwyn, ac yna, fel mae'r ffilm yn mynd yn ei blaen, yn troi yn gymeriad fwyfwy treisgar ac allan o reolaeth. Os nad ydych chi eisoes wedi cael llond bol ar y confensiwn hwn, byddwch wrth eich bodd ag Andy Knightley (Frost). Mae'n fath o rôl generig y gallai John Candy, Chris Farley, John Belushi...i enwi ond ychydig, fod wedi ei chwarae yn hawdd.

Mae Freeman, sef "seren fwyaf" y ffilm mae'n siŵr, ar ôl iddo gael ei ddewis i chwarae rhan Bilbo Baggins yn *The Hobbit*, yn chwarae rhan Oliver Chamberlain, y dyn Prydeinig parchus, sy'n dilyn y rheolau. Ydym ni wedi gweld y cymeriad hwn o'r blaen? Do, ym mhopeth Prydeinig, bron iawn. (Gobeithio na chafodd y gwaith cynhyrchu ar *Sherlock* ei oedi oherwydd *The World's End*. Os felly, bydd canlyniadau.)

Mae Considine, actor amryddawn arall – gweler ef yn *Dead Man's Shoes* (2004) – yn chwarae rhan is na'i allu fel Steven Prince, cymeriad sy'n bodoli er mwyn i'r ffilm gael triongl caru rhwng King, Prince a Sam Chamberlain (Rosamund Pike), chwaer Oliver. Paratowch ar gyfer llawer o jôcs am garwriaeth fer mewn toiled i'r anabl. Ydy, mae mor uchel-ael â hynny.

Mae cyfres Cornetto yn bodoli i ddynwared ac ailddyfeisio ffilmiau genre: roedd *Shaun of the Dead* yn delio â sombïaid; roedd *Hot Fuzz* yn edrych ar y genre partneriaid heddlu; ac mae *The World's End* yn mynd i'r afael â ffuglen wyddonol ymosodiad estroniaid. Yn fwy penodol, mae'n cysylltu elfennau o *Invasion of the Body Snatchers* (1978) a *The Stepford Wives* (1975).

Y sarhad mwyaf i mi oedd diwedd *The World's End*, yn benodol yr ymson y mae King yn ei gyflwyno. Am bron i ddwy awr, rydym ni'n gwylio pump o bobl wirion yn rhedeg o gwmpas yn feddw gaib, a rhywsut, mae disgwyl i ni gytuno bod gwerth cynhenid i'r ddynoliaeth; na ddylid ei disodli. Os yw'r cymeriadau hyn yn cynrychioli'r ddynoliaeth ar ei gorau, mae wir angen ymosodwyr estron arnom ni.

Wrth gwrs, daw hyn o enau rhywun sy'n cytuno ag Asiant Smith (Hugo Weaving) bod y ddynoliaeth yn "firws", ac sydd bob amser yn siomedig pan fydd Neo a'r criw yn llwyddo yn ffilmiau *The Matrix*. Cewch fy ngalw i'n gasäwr dynolryw.

Rwy'n bendant yn un o'r lleiafrif sydd ddim yn hoff o *The World's End*, felly mae'n siŵr y dylech chi gymryd fy adolygiad â phinsiad o halen. Rwy'n adnabod o leiaf pump o bobl a aeth i'w gweld ar y penwythnos agoriadol a oedd yn meddwl bod y ffilm yn ddoniol tu hwnt.

I mi, unig uchafbwynt y ffilm oedd ailddarganfod y gân 'The Corrosion' gan Sisters of Mercy, sy'n canu dros y credydau ar y diwedd. Nid oedd yn wastraff amser llwyr, felly!

## Gwaith dilynol

1. Ewch ar-lein a dewch o hyd i gyfrif Twitter *The World's End*.

   Twitter

Edrychwch ar hwn ac ysgrifennwch fanteision safleoedd rhwydweithio cymdeithasol o'r fath ar gyfer cynulleidfaoedd a chynhyrchwyr.

2. Oed cynyddol y bobl sy'n mynd i'r sinema yn y DU.

| Oed | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|---|---|
| 15-24 | 39% | 38% | 31% | 25% |
| 25-34 | 20% | 22% | 21% | 19% |
| 35-44 | 18% | 19% | 20% | 20% |
| 45+ | 23% | 22% | 28% | 36% |

Daw'r ystadegau uchod o Flwyddlyfr Ystadegol *BFI* 2013.

O edrych ar yr ystadegau hyn, ydych chi'n meddwl eu bod yn gysylltiedig â ffigurau terfynol y swyddfa docynnau ar gyfer *The World's End*?